# Tipiau Technoleg Gwybodaeth i hybu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## 01

### Defnyddio cyfieithu peirianyddol

Gall defnyddio'r swyddogaeth cyfieithu sydd wedi ei integreiddio mewn rhaglenni fel Microsoft neu Google fod yn ffordd o annog aelodau o staff i ddrafftio testun mewnol neu anffurfiol a magu eu hyder i ddefnyddio sgiliau ysgrifenedig (gyda phwyslais ar brawfddarllen yn ofalus).

## 02

### Gosod iaith gweithredu Microsoft yn Gymraeg

Gallwch ragosod, neu roi opsiwn i staff newid iaith rhaglenni Microsoft, fel bod yr holl apiau yn Gymraeg. Bydd hyn yn caniatáu i staff fod yn fwy gyfarwydd gyda thermau ar gyfer gweithgareddau sydd yn ymwneud a'i gwaith dydd i dydd.

## 03

### Defnyddio logo Iaith Gwaith a llofnod e-bost yn nodi gallu Cymraeg

Mae defnyddio'r bathodyn neu eiriad penodol mewn e-bost yn gweithio fel ysgogydd newid ymddygiad ac yn ei gwneud yn glir i unrhyw un pa iaith y gallent ei defnyddio wrth gyfathrebu gyda'r unigolyn hwnnw.

## 04

### Defnyddio meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg

Dylech fod yn annog pawb i ddefnyddio apiau megis **Cysgeir** i wirio testun Cymraeg ac er mwyn annog hyder wrth ddefnyddio Cymraeg cywir.

## 05

### Defnyddio adnoddau fel Geiriaduron a Thesawrus Cymraeg

Mae llu o adnoddau ar gael am ddim ar y we fydd yn helpu eich staff wrth ddrafftio yn Gymraeg.

## 06

### Ychwanegu cefndir ar Microsoft Teams/Zoom sydd yn cynnwys logo Iaith Gwaith

Bydd hyn yn amlygu mewn cyfarfodydd rhithiol pwy sydd â gallu Cymraeg a sydd felly yn fodlon cyfrannu yn Gymraeg. Gallwch hefyd greu logo sydd yn dynodi bod rhywun yn deall ond ddim yn gallu cyfrannu, fydd yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan eraill.